# Hyfforddiant Llywodraethwyr Bro Morgannwg
## Haf 2026

| | |
|---|---|
| **Sefydlu**<br><br>Dydd Mawrth 12 Mai<br>17:30-19:00 | Mae'r **modiwl gorfodol** hwn sydd wedi'i ddiwygio wedi'i anelu at lywodraethwyr newydd, a rhaid ei gwblhau o fewn blwyddyn gyntaf y penodi.<br>Bydd yn helpu llywodraethwyr newydd gael yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ddechrau cyflawni eu rôl yn effeithiol i gefnogi eu hysgol wrth godi safonau.<br><br>**Bydd y sesiwn hyfforddi yn canolbwyntio ar:**<br><br>• Sut mae gweledigaeth yr ysgol yn siapio gwerthoedd ar draws cymuned yr ysgol ac yn gyrru diwylliant o ddisgwyliadau uchel<br>• Rolau a chyfrifoldebau allweddol llywodraethwyr<br>• Cyfansoddiad cyrff llywodraethu a sut maen nhw'n gweithio<br>• Her a chymorth effeithiol. |
| **Data**<br><br>Dydd Iau 4 Mehefin<br>16:00-17:30 | Mae'r **modiwl gorfodol** wedi'i ddiweddaru **hwn ar gyfer llywodraethwyr newydd** yn anelu at ddatblygu dealltwriaeth o gynnydd ysgol a data perfformiad.<br><br>**Mae'r sesiwn yn archwilio:**<br><br>• Y math o ddata a ddefnyddir gan ysgolion a'r rôl y mae data'n ei chwarae mewn gwella ysgolion<br>• Sut y gall llywodraethwyr ddefnyddio data i herio a chefnogi'r ysgol i wella<br>• Sut mae llywodraethwyr yn atebol am y cynnydd a wnaed gan bob grŵp o ddysgwyr, a sut y caiff y data hwn ei gasglu a'i ddefnyddio gan eu hysgolion<br>• Y math o gwestiynau y gall llywodraethwyr eu gofyn am ddata eu hysgolion eu hunain |
| **Gwahardd Disgyblion**<br><br>Dydd Mercher 20 Mai<br><br>17:30-19:00 | Bydd y cwrs hwn yn rhoi cyflwyniad i esbonio'r dulliau o reoli gwaharddiadau a rhoi trosolwg ar weithdrefnau perthnasol. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn, fel Deddf Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, nodweddion gwarchodedig a chyfraith gwahaniaethu ar sail anabledd a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar waharddiadau, prosesau a llinellau amser.<br><br>Mae hefyd yn edrych ar gamau ataliol a rhagweithiol y gellir eu cymryd i atal gwaharddiadau. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar rôl y corff llywodraethu o ran rheoli gwaharddiadau, gan ganolbwyntio ar gyfarfodydd y PDD, felly bydd yn arbennig o ddefnyddiol i'r llywodraethwyr hynny ar bwyllgorau disgyblu a gwahardd disgyblion ac unrhyw lywodraethwyr sydd â diddordeb yn y maes hwn. |
| **Adolygiad Datblygiad Proffesiynol Penaethiaid**<br><br>Dydd Mercher 10 Mehefin<br><br>17:30-19:00 | Mae'r sesiwn hon wedi'i hanelu at lywodraethwyr sy'n cynnal adolygiad datblygiad proffesiynol penaethiaid. Bydd yn:<br><br>• canolbwyntio ar yr argymhellion a'r diweddariadau yn dilyn Adolygiad Datblygiad Proffesiynol Llywodraeth Cymru (Mawrth 2024)<br>• canolbwyntio ar sicrhau bod gan lywodraethwyr yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i ymgymryd â'r rôl benodol hon<br>• caniatáu i'r holl bartïon sy'n ymwneud ag adolygiadau Datblygiad Proffesiynol gael yr hyder i sicrhau bod y system yn gefnogol ac yn gadarn. |

# Hyfforddiant Llywodraethwyr Bro Morgannwg
# Haf 2026

| | |
|---|---|
| **Cynlluniau Cymorth Bugeiliol (CCBau)**<br>Dydd Mercher 17 Mehefin<br>17:30-19:00 | Mae'r Cynllun Cymorth Bugeiliol (CCB) yng Nghymru wedi'i gynllunio i gefnogi myfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau i addysg, gyda'r nod o wella eu canlyniadau cymdeithasol, emosiynol ac academaidd. Mae'r CCB yn ddull byrdymor (6 i 8 wythnos), yn yr ysgol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn gyda'r nod o helpu plant a phobl ifanc sy'n wynebu heriau fel presenoldeb gwael, problemau ymddygiad, neu anawsterau academaidd.<br>Mae'r cynllun yn gwasanaethu fel offeryn ymyrraeth gynnar i atal gwaharddiad o'r ysgol ac i gefnogi myfyrwyr i gyflawni canlyniadau addysgol gwell.<br><br>**Nodau'r hyfforddiant hwn yw cefnogi llywodraethwyr i fod yn hyderus i ddeall y canlynol.**<br>• Beth yw Cynlluniau Cymorth Bugeiliol?<br>• Beth yw Dysgu Hyblyg?<br>• Beth yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol?<br>• Pryd gallai Cynllun Cymorth Bugeiliol weithredu er budd y plentyn?<br>• Pryd allai cynllun dysgu hyblyg weithredu er budd y plentyn?<br>• Beth i'w ddisgwyl gan swyddogion yr ALl? |
| **Sesiwn Friffio a Diweddaru Addysg**<br><br>Dydd Mercher 24 Mehefin<br>17:30-19:00 | Dyma gyfle, sydd ar agor i bob llywodraethwr, i dderbyn diweddariadau addysg gan Uwch Gydweithwyr yn y Tim Dysgu a Sgiliau ym Mro Morgannwg. |
| **Paratoi eich Ysgol ar gyfer Arolwg Estyn**<br><br>Dydd Iau 2 Gorffennaf<br><br>17:30-19:00 | Nod y sesiwn hon yw cefnogi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Llywodraethwyr i rannu gwaith eu hysgol yn effeithiol a pharatoi ar gyfer arolwg Estyn. Bydd yn esbonio'r broses arolygu, rôl llywodraethwyr o fewn y broses, a rhai o'r themâu sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau. |
| **Llywodraethu Gwybodaeth**<br><br>Dydd Llun 6 Gorffennaf<br><br>17:30-19:00 | Mae'r cwrs wedi'i anelu at bob Llywodraethwr oherwydd bod Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithio ar sawl agwedd ar waith o fewn ysgol. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y Ddeddf Diogelu Data a'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, bydd hyn yn cynnwys ystyried trefniadau llywodraethu, trin a rhannu data personol, materion yn ymwneud â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth, ystyriaethau ynghylch tor diogelwch data, a fydd yn cynnwys yn fyr, ystyried materion o fath seiberddiogelwch a cheisiadau eraill am wybodaeth fel y rheini o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Nod y cwrs yw darparu trosolwg yn y meysydd hyn i sicrhau bod Llywodraethwyr yn ymwybodol o rwymedigaethau yn y meysydd hyn<br><br>Mae'r maes hwn yn cael ei reoleiddio gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae ganddynt bwerau eang. Maent yn disgwyl i atebolrwydd fod yn dryloyw ac yn amlwg ar lefelau uwch pob sefydliad. Maent hefyd yn disgwyl i hyfforddiant Diogelu Data gael ei gynnal o leiaf bob dwy flynedd. Mae Cyngor Bro Morgannwg o'r farn y dylai hyfforddiant gael ei gynnal yn flynyddol. Ar hyn o bryd, mae'r ffordd y caiff gwybodaeth bersonol ei rhannu, ei defnyddio a'i storio yn newid ac mae llawer o newidiadau yn digwydd yn y maes hon yn rheolaidd. |

# Hyfforddiant Llywodraethwyr Bro Morgannwg
# Haf 2026

| | |
|---|---|
| **Llywodraethwr Diogelu Dynodedig (LlDDau)**<br><br>Dydd Mercher 8 Gorffennaf<br><br>17:30-19:00 | Polisi'r Fro yw bod pob Llywodraethwr Diogelu Dynodedig (LlDD) yn adnewyddu eu hyfforddiant ddwywaith y flwyddyn. Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â disgwyliad y rôl, yn darparu dealltwriaeth o'r Pecyn Cymorth Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (CDDd) ac yn nodi sut i ddangos tystiolaeth o atebolrwydd i Estyn o ran ansawdd ac effeithiolrwydd pa mor ddiogel yw'r ysgol drwy ddiweddaru a gwella polisi a gweithdrefnau diogelu'r ysgol. |

**Ffurflen Archebu**

**Hyfforddiant Llywodraethwyr**

## Calendr hyfforddiant

| Date | Time | Session |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth 12 Mai | 5.30-7.00pm | Sefydlu |
| Dydd Iau 4 Mehefin | 4.00-5.30pm | Data |
| Dydd Mercher 20 Mai | 5.30-7.00pm | Gwahardd Disgyblion |
| **Llun 25 Mai** | | **Wythnos Hanner Tymor** |
| Dydd Mercher 10 Mehefin | 5.30-7.00pm | |
| Dydd Mercher 17 Mehefin | 5.30-7.00pm | Cynlluniau Cymorth Bugeiliol (CCBau) |
| Dydd Mercher 24 Mehefin | 5.30-7.00pm | Sesiwn Friffio a Diweddaru Addysg |
| Dydd Iau 2 Gorffennaf | 5.30-7.00pm | Paratoi eich Ysgol ar gyfer Arolwg Estyn |
| Dydd Llun 6 Gorffennaf | 5:30-7:00pm | Llywodraethu Gwybodaeth |
| Dydd Mercher 8 Gorffennaf | 5.30-7.00pm | Llywodraethwr Diogelu Dynodedig (LlDDau) |